

Nodiadau'r Cyfarfod

Teitl y Cyfarfod:	Fforwm Rheoli Dŵr Cymru
Lleoliad:	Rhithwir drwy MS Teams
Dyddiad y Cyfarfod:	19/10/2022
Yn bresennol:	Steve Ormerod (Cadeirydd) Ceri Davies (CNC), Ceri Jones (CNC), Francesca Sanchez (CNC), Sian Williams (CNC), Seth Johnson-Marshall (Afonydd Cymru ar gyfer WEL), Sue Ginley (CNC), Laura Moss (DWI), Mark Charlesworth (CNC), Andy Morrirt (Awdurdod Glo), Richard Blackwell (WRW ar gyfer United Utilities), Sarah Clark (HD), Natalie Hall (CNC), Stephanie Pullan (HD), Tony Harrington (DC), James Dowling (LIC), Alison Edwards (DC), Anthony Geddes (Confor), Paul Hurcombe (HD), Suzanne Hearn (CNC), Dennis Matheson (TFA Cymru), Bob Gilchrist (CCW)
Ymddiheuriadau:	Bydd Gail Davies (Afonydd Cymru) a Seth Johnson-Marshall yn cyflenwi, bydd Elizabeth Franks (HD Cymru) a Paul Hurcombe yn cyflenwi, Phil Stone (Canŵ Cymru), Fraser McAuley (CLA)
Ysgrifenyddiaeth:	Ceri Jones

Eitem 1: Agor y Cyfarfod

Fel Cadeirydd, agorodd yr Athro Steve Ormerod y cyfarfod yn nodi'r trefniadau ar gyfer cynnal y Fforwm rhithwir. Croesawyd aelodau newydd.

Eitem 2: Adolygu'r Cofnodion a'r Log Gweithredu

Cytunwyd ar gofnodion a chymau gweithredu'r cyfarfod diwethaf yn amodol ar gynnwys Dennis Matheson (TFA Cymru) ar y rhestr mynychwyr.

CAMAU A GARIWYD DROSODD: CJ i wirio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn gwirio'r Strategaeth Dŵr a gwerth gwaith dŵr mewn perthynas â STT

CAMAU A GARIWYD DROSODD: Bydd CJ yn rhoi diweddariad rheolaidd ar Wyddoniaeth Dinasyddion ym mhapurau Diweddariad Briffio CNC ar gyfer cyfarfodydd sydd i ddod.

Bydd fersiwn derfynol o nodiadau cyfarfod mis Mai 2022 ar gael ar dudalen gwefan CNC ar gyfer y Fforwm Rheoli Dŵr <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/wales-water-management-forum/?lang=cy>

Eitem 3 Cyfraniadau'r Aelodau a phapur diweddarau – uchafbwyntiau a thrafodaeth agored

Cafodd y Fforwm Rheoli Dŵr drafodaeth agored ar faterion oedd yn berthnasol i'r fforwm, gan gynnwys diweddariadau aelodau a thrafodaeth ar y papur Diweddarau. Ymhlith y pwyntiau i'w nodi oedd:

- **Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol** – Mae'r UE yn diwygio'r rheolau ar drin dŵr gwastraff trefol i gynnwys pob dinas â thros 1000 o drigolion, llygredd a achosir gan orlifoedd storm, a microlygryddion megis gweddillion fferyllol a chynnyrch cosmetig. Mae'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig hefyd yn gosod targed niwtraliaeth ynni ar gyfer y sector ac yn cyflwyno rheolaeth well ar systemau unigol megis tanciau septig, safonau llymach ar gyfer maetholion, a safonau ar gyfer microlygryddion.
- **Ymchwil cemegion/cynhyrchion fferyllol** – trafodaeth fer am gynhyrchion fferyllol mewn amgylchedd dŵr, yn enwedig rhai sy'n deillio o ysbytai. Yn yr Iseldiroedd, maen nhw'n trin eu dŵr gwastraff ysbyty cyn iddo fynd i mewn i'r system garthffosiaeth gan fod cynhyrchion fferyllol yn anoddach i'w gwaredu ar ddiwedd gwaith carthion. Hefyd, mae angen ystyried cynhyrchion fferyllol milfeddygol.

CAM GWEITHREDU: Bydd SW a TH yn cysylltu â'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yng Nghymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch goblygiadau iechyd ac amgylcheddol ymrwethedd gwrth-ficrobaidd a fferyllol yn amgylchedd y dŵr

CAM GWEITHREDU: CJ i gynnwys cynhyrchion fferyllol fel eitem cyfarfod rhagolwg ar gyfer trafodaeth sylweddol

- **Rheolau ffermio ar gyfer dŵr yn Lloegr** - Defra mewn trafodaethau ar dynhau'r rheolau ar pryd y gellir ac na ellir ailgylchu tail. Bydd hyn yn gosod cyfyngiadau ar y diwydiant llaeth ac ailgylchu biosolidau.
- **Water Mark 2022** - Mae CCW wedi [cyhoeddi](#) ei sgoriau blynyddol o gwmnïau dŵr.
- **Gwastraff gwely cyrs yn Lloegr** – Mae'r Awdurdod Glo wedi bod mewn trafodaethau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd am godau gwastraff gwely cyrs sy'n trin dŵr pyllau glo. Mae'r Awdurdod Glo bellach yn deall y bydd angen gwaredu gwastraff gwely cyrs (cyrs wedi'u torri yn ogystal â slwtsh) gan losgydd neu safleoedd tirlenwi, yn hytrach na gwaith adfer tir llwyd.
- **TFA Cymru** – Cododd TFA bryderon am y risg na fydd Cynllun Taliad Sengl newydd Llywodraeth Cymru yr un mor hygyrch i ffermwyr tenantiaid o'i gymharu â thirfeddianwyr gan fod angen ymrwymiad hirdymor ar newidiadau defnydd tir. Hefyd, mae perygl o safbwynt gallu ffermwr tenant i fuddsoddi mewn gwelliannau sy'n ofynnol i

gydymffurfio â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ar gyfer storio slyri. Mae tua 27% o dir Cymru yn cael ei ffermio gan rywun ar wahân i'r tîrffediannwr.

- **Canŵ Cymru (darparwyd trwy ebost i'r cyfarfod) -**
 - a. Bellach, mae nifer yr aelodau ychydig dros 4,500, i fyny o 2,700 ym mis Mawrth 2020. Mae aelodau Canŵ Cymru wedi dangos i ni eu bod eisiau mwy o wybodaeth am ein hamgylchedd dyfrol a torlannol. Mae Canŵ Cymru wedi penodi aelod newydd rhan-amser o staff a fydd yn arwain rhywfaint o'n gwaith amgylcheddol a chynaliadwyedd. Mae aelodau Canŵ Cymru yn anhapus ag ansawdd ein hafonydd yn gyffredinol. Mae Canŵ Cymru yn parhau i hyrwyddo'r fenter 'Edrych Golchi Sychu' gyda negeseuon am hyn wedi'u hanfon i'n holl aelodau. Mae Canŵ Cymru yn cydweithio â [Rhwydwaith Ecolegol Gadarn Cymru](#) (WaREN) a CRT er mwyn codi ymwybyddiaeth o rywogaethau goresgynnol.
 - b. Ymunodd aelodau Canŵ Cymru â digwyddiad glanhau [Big Paddle clean up](#) gan ddarparu pecynnau glanhau i 30 o'n clybiau er mwyn cyrraedd at sawl afon o amgylch Cymru. Mae'r clybiau yn parhau i lanhau a chlirio sbwriel oddi ar afonydd pryd bynnag fyddan nhw'n padlo.
 - c. Cyfrannodd Canŵ Cymru at god newydd [Paddlers Code](#) sydd newydd ei lansio, ac a baratowyd i gyd-fynd â'r cod cefn gwlad sy'n bodoli'n barod gan ddilyn yr un arwyddair 'parchu, diogelu, mwynhau'. Mae [fideo](#) i gyd-fynd â'r cod hefyd, ac os sylwch chi'n ddigon manwl, fe welwch chi badlfyrddwyr Llandysul yn mwynhau Afon Teifi.
 - d. Mae rhifyn diweddaraf Canŵ Cymru o'r cylchgrawn chwarterol, [Ceufad Hydref 2022](#), yn cynnwys darn wedi'i ysgrifennu gan Ben Wilson CNC am dynged eogiaid a sewin Cymru.
- **Water Resources West** – rhannodd Richard Blackwell (WRW) rai sleidiau i ddiweddarau ar waith WRW - maen nhw'n disgwyl cyhoeddi eu cynllun adnoddau dŵr ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Tachwedd 2022, yn unol â llinell amser WRMP y cwmni dŵr. Unwaith y bydd ymatebion i'r ymgynghoriad wedi eu hadolygu, mae disgwyl y bydd Cynllun Rheoli terfynol WRW yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi/Hydref 2022. Mae'r Cynllun wedi ystyried dynodiadau amgylcheddol, gostyngiadau yn y galw i 110l p/d, lleihau gollyngiadau, a throsglwyddiad Tafwys Hafren. Bu WRW yn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth datblygu'r cynllun. Maen nhw hefyd yn archwilio labelu gorfodol ar effeithlonrwydd dŵr ar gyfer nwyddau gwyn.
- **DWI** – roedd ymchwil, a gynhaliwyd cyn y tywydd sych eleni, yn dangos bod cwsmeriaid yn teimlo bod digonedd o adnoddau dŵr ar gael, a bod newid hinsawdd yn bell i ffwrdd. Mae arolygon mwy diweddar wedi'u cynllunio. Bu DWI hefyd yn gwneud ymchwil i gwsmeriaid ar ailgylchu dŵr, a gafodd adborth cadarnhaol gan gwsmeriaid. Pwysleisiodd DWI pa mor bwysig yw rhoi'r negeseuon cywir wrth ymgysylltu â'r cyhoedd ar fater ailgylchu dŵr.

- **Y diweddaraf am sychder yng Nghymru** – mae Cymru'n dal mewn sychder, a dyma'r haf sychaf ers 150 o flynyddoedd. Er bod glaw wedi bod yn ddiweddar, sydd wedi lleddfu'r pwysau i ryw raddau, nid yw'r cyfnodau o gawodydd byrion hyn yn treiddio i'r ddaear ac maent wedi arwain at rybuddion llifogydd yn lle hynny. Mae CNC wedi symud i gam ymateb Rheoli Digwyddiadau ar gyfer sychder.
- **Diweddariadau CNC** - cawsant eu darparu ym Mhapur 1: Diweddariad Briffio.
- **Rhaglen Cyfalaf Dŵr** - mae CNC wedi derbyn £9 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23, i gynnal rhaglen waith cyfalaf i sicrhau gwelliannau i ansawdd y dŵr a'r amgylchedd dŵr ehangach. Bydd gwaith adfer mwyngloddiau metel a rhaglen waith i wella dosbarthiad gofodol o boblogaethau pysgod bridio a mwy o ddefnydd o gynefin wedi'i adfer a'i optimeiddio mewn dalgylchoedd uchaf ar gyfer cynhyrchu pysgod hefyd yn cael ei wneud. Bydd y rhaglen waith yn rhoi ymyriadau ar waith a fydd yn helpu i wneud ecosystemau'n fwy cadarn, fel y gall amgylchedd y dŵr, dros amser, ymateb i bwysau drwy wrthsefyll, adfer ac addasu i newid, wrth barhau i gynnig manteision niferus i gymdeithas. Dylai'r gwaith wneud ardaloedd yn fwy atyniadol, gan wella ansawdd bywyd a chyflwyno rhagor o fuddion i iechyd a llesiant.

CAM GWEITHREDU: CJ i ddarparu cyswllt CNC i RLD ar gyfer y sawl sy'n ymwneud â gwaith Afonydd ACA.

- **Cynllun Corfforaethol CNC** – darparodd Sue Ginley (CNC) y wybodaeth ddiweddaraf gan CNC sy'n datblygu eu Cynllun Corfforaethol diweddaraf a fydd yn amlinellu amcanion hyd at 2030. Bydd yn cael ei lywio gan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ac felly'n gosod yr amcanion a'r camau llesiant a fydd yn cyflawni'r amcanion hynny. Y tair prif elfen yw: argyfwng natur, argyfwng hinsawdd ac atal llygredd. Mae disgwyl i'r cynllun gael ei lansio yn ystod gwanwyn 2023.

CAM GWEITHREDU: SG i anfon holiadur byr at gyfranwyr y Fforwm Rheoli Dŵr ym mis Tachwedd.

- **Rhagolwg y Fforwm Rheoli Dŵr ar hyn o bryd yw:**
 - a) Cynhyrchion fferyllol
 - b) Tueddiadau dŵr daear
 - c) Tystiolaeth gan gynnwys data – integreiddio dulliau amrywiol gan gynnwys gwyddoniaeth dinasyddion
 - d) Dyfroedd ymdrochi mewndirol
 - e) Gwersi sychder a ddysgwyd

CAM GWEITHREDU: Pawb i anfon awgrymiadau rhagolwg at CJ cyn y cyfarfod nesaf

Eitem 4 Dosbarthiad Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (WFD)

Rhoddodd Mark Charlesworth (CNC) gyflwyniad ar ddsbarthiad diweddaraf (2021) y cyrff dŵr o dan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr - WFD). Yn 2021 cyflwynwyd safonau nitrogen ar gyfer llynnoedd, ychwanegwyd cemegion newydd, newidiodd safonau asidedd afonydd a bu newid i'r offeryn dosbarthu pysgod aberol. Prif

neges dosbarthiad 2021 yw: mae 40% o'r holl gyrff dŵr wyneb a daear mewn statws da neu uchel, sy'n welliant o 3% ers 2015.

Ar lefel elfennol: mae 93% o'r elfennau yn gyffredinol mewn statws da neu uchel. Fodd bynnag, mae cyfanswm P mewn afonydd a llynnoedd yn methu mewn rhai cyrff dŵr; mae methiannau eang ar gyfer yr Asesiad Mesurau Lliniaru (MMA); ac yng nghyfrff dŵr TRAC, mae pryderon am DIN.

Statws cemegol: 300 o gyrff dŵr wedi adrodd am gopr. Daeth y wybodaeth o set ddata plaladdwyr Dŵr Cymru a Rhaglen Ymchwiliadau Cemegol. Tri phrif gategori: a) Metelau o fwyngloddiau metel segur, b) UPBTs, sy'n cael eu taclo i raddau helaeth trwy reoli ffynhonnell ond sydd mor hollbresennol gallant gymryd amser i weld newidiadau cadarnhaol o gamau gweithredu yn y data dosbarthu, a c) plaladdwyr, yn enwedig wrth waredu dip defaid.

Mae holl ddata'r dosbarthiad ar gael i'w lawrlwytho ar Water Watch Wales a bydd ap newydd Power BI yn caniatáu mynediad hawdd i ddosbarthiad data a mapiau GIS i'w lawrlwytho.

Cafwyd trafodaeth am y canlynol: pa mor dda rydym ni'n cyfathrebu am y gwelliannau yn yr amgylchedd dŵr ac nid y methiannau yn unig?; y budd o ddangos yr holl safonau, gan gynnwys Ardaloedd Gwarchoddedig, mewn un lle yn y dyfodol; a chyfeiriwyd at [Seland Newydd](#) fel enghraifft o gydweithio i wella ansawdd dŵr.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd newydd gyhoeddi [eu hadroddiad ar ansawdd afonydd a thuaddiadau hirdymor 'State of the Water Environment'](#), a ddaeth i'r casgliad canlynol:

- a. Y newidiadau canlynol i grynodiadau cyfartalog o'r paramedrau dethol rhwng canol y 1980au a'r presennol (2019):
 - i. Mae crynodiadau amonia wedi gostwng i tua 15% o grynodiadau cyfartalog 1990
 - ii. Mae crynodiadau BOD wedi gostwng i 55-60% o grynodiadau cyfartalog 1990
 - iii. Mae crynodiadau orthoffosffad wedi gostwng i 15-20% o grynodiadau cyfartalog 1990
 - iv. Nid yw crynodiadau nitrogen nitradau'n dangos unrhyw duedd glir

Eitem 5 Cynlluniau Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff (Cynlluniau), Dŵr Cymru

Rhoddodd Alison Edwards (DC) gyflwyniad ar ddatblygiad eu Cynlluniau Er mwyn datblygu'r cynllun, cynhaliodd Dŵr Cymru ymchwil cwsmeriaid gydag aelwydydd a busnesau. Daeth ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun i ben ar 7 Hydref 2022 ac mae Dŵr Cymru yn bwriadu cynhyrchu datganiad o ymateb. Bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu a yw'r Cynllun yn ddigonol i gyhoeddi, neu a fydd angen ail-weithio'r cyfan neu rai rhannau ohono.

Mae HD yn edrych ar ddull dalgyrch ar gyfer y Cynllun, yn enwedig ardaloedd y Drenewydd a'r Trallwng.

CAM GWEITHREDU: Bydd AE yn cwrdd â SW ar wahân i drafod rhagdybiaethau Dŵr Cymru yn y Cynllun.

Eitem 6 Unrhyw fater arall

CAM GWEITHREDU: FS/CJ i anfon holiadur i'r Fforwm Rheoli Dŵr am ba gyfleoedd sydd i wella cyfathrebu mewnol ac allanol.

- Rhoddodd SO drosolwg o argymhellion yr Archwiliad Dwfn ar Fioamrywiaeth.

CAM GWEITHREDU: CJ i ddsbarthu cysylltiadau argymhellion yr Archwiliad Dwfn i'r Fforwm Rheoli Dŵr.

- **Targedau ansawdd dŵr wedi'u diwygio ar gyfer afonydd ACA –**
 - a) Yn dilyn cyngor gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), mae CNC wedi diwygio targedau ansawdd dŵr pob corff dŵr o fewn y naw afon Cadwraeth Arbennig (ACA); Cleddau, Eden, Gwyrfaï, Teifi, Tywi, Glaslyn, Dyfrdwy, Wysg a Gwy.
 - b) Mae'r targedau ansawdd dŵr diwygiedig yn y Cynllun Rheoli Craidd (CMP) ar gyfer pob un o'r naw afon ACA bellach wedi'u cyhoeddi. Mae Cynlluniau Rheoli Craidd ACA yn amlinellu gweledigaeth y safle, nodweddion a'r hyn sy'n ofynnol i ddod â'r nodweddion i gyflwr ffafriol. Mae gan bob nodwedd set o amcanion cadwraeth sy'n fynegiant o'r dyhead cadwraeth ar gyfer pob safle yng nghyd-destun statws cadwraeth ffafriol. Mae'r targedau newydd sy'n rhan o'r amcanion a'r targedau cadwraeth wedi'u cynnwys ar gyfer ystod o briodoleddau ansawdd dŵr, gan gynnwys ffosffad, amonia cyflawn, amonia undebol, ocsigen toddedig a'r galw am ocsigen biocemegol. Mae'r cynlluniau hefyd wedi'u gwella'n sylweddol drwy gynnwys ailfrandio, fformatio gwell, gwelliannau hygyrchedd a rhai diweddariadau eraill ar gynnwys.
 - c) Erbyn hyn, mae rhestr lawn o dargedau ansawdd dŵr wedi'u diweddarau ar gyfer y 127 o gyrff dŵr o fewn afonydd ACA ar ein [gwefan](#). Mae'r Cynlluniau Rheoli Craidd ar gael i'w gweld yn llawn gan ddefnyddio'r hidlwyr ar ein [tudalen safleoedd dynodedig](#).
- **Ymweliad safle y Fforwm Rheoli Dŵr** - mae CJ yn ystyried trefnu ymweliad safle â phrosiect cyfalaf dŵr ger Caerdydd.

CAM GWEITHREDU: Bydd CJ yn anfon rhai awgrymiadau ymweld â'r safle i'r Fforwm.

Eitem 7 Dyddiad y cyfarfod nesaf

CAM GWEITHREDU: Bydd CJ yn anfon e-bost gyda'r dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth 2023